

# Meistroli a'r CEFR

Mae **Meistroli** yn offeryn dysgu iaith sy'n anelu at wella sgiliau Cymraeg dysgwyr mewn addysg gynradd ac uwchradd. Mae'n cefnogi ysgolion i gyflwyno gweithgareddau dysgu Cymraeg ac i asesu canlyniadau mesuradwy ar gyfer dysgu ieithoedd yn unol â'r CEFR (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd).

Mae'r **CEFR** yn darparu safon a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer disgrifio hyfedredd iaith ar draws chwe lefel: A1 (Mynediad), A2 (Sylfaen), B1 (Canolradd), B2 (Canolradd Uchaf), C1 (Uwch), a C2 (Hyfedredd).

Mae **Meistroli** yn rhoi cyfle i ddysgwyr symud o lefel iaith Mynediad (A1) i lefel ganolradd (B1) ac yn galluogi dysgwyr i weithio tuag at hyfedredd mwy datblygedig (B2-C2) yn y dyfodol. Mae'n rhoi profiad i ddysgwyr o ddefnydd iaith ymarferol (deall a siarad), gan eu galluogi i ddangos canlyniadau "gallu gwneud" sy'n gyson â safonau'r CEFR.

| Lefel CEFR | Sgil iaith | Disgrifiad CEFR | Enghreifftiau o batrymau Meistroli |
|---|---|---|---|
| **A1**<br>(Mynediad) | **Dealltwriaeth**<br>Gwrando | Rydw i'n gallu adnabod geiriau cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn sy'n ymwneud â fi fy hun, fy nheulu a'r amgylchedd agos pan fydd pobl yn siarad yn araf ac yn glir. | ★ Cam 1: ***Dw i'n hoffi nofio.*** / ***Dyma Tom.*** / ***Mae hi'n heulog.***<br>★ Cam 2: ***Beth mae Jac yn wisgo?*** / ***Ble mae hi'n byw?*** / ***Mae cath gyda fi.*** |
| | **Dealltwriaeth**<br>Darllen | Rydw i'n gallu deall enwau cyfarwydd, geiriau a brawddegau syml iawn. | ★ Cam 1: ***bach, llygaid, wedi blino*** / ***Pa liw?*** / ***Sut wyt ti?***<br>★ Cam 2: ***... achos mae'n flasus.*** / ***Beth ydy hwn?*** / ***Ydy hi'n amser cinio?*** |
| | **Siarad**<br>Rhyngweithio Llafar | Rydw i'n gallu rhyngweithio mewn ffordd syml ar yr amod bod y person arall yn barod i ailadrodd pethau gan siarad yn arafach ac yn fy helpu i lunio beth rydw i'n ceisio ei ddweud. Rydw i'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau syml pan fydd yr angen yn uniongyrchol neu pan fydd y pynciau'n gyfarwydd iawn. | ★ Cam 1: ***Ble mae Jac?*** / ***Dyma'r pensil.*** / ***Ga i afal, os gwelwch yn dda?***<br>★ Cam 2: ***Beth mae hi'n wneud?*** / ***Oes bola tost gyda ti?*** / ***Nac oes, does dim pen tost gyda fi.*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Siarad**<br>Cynhyrchu Llafar | Rydw i'n gallu defnyddio ymadroddion a brawddegau syml i ddisgrifio ble rwy'n byw a phobl rwy'n eu hadnabod. | ★ Cam 1: ***Dw i'n hoffi Fflac.*** / ***Dyma hi.*** / ***yn y tŷ gwyn***<br>★ Cam 2: ***Ble mae e'n byw?*** / ***Does dim gwallt brown gyda hi.*** / ***Dw i ddim yn byw mewn fflat.*** |
| **A2**<br>(Sylfaen) | **Dealltwriaeth**<br>Gwrando | Rydw i'n gallu deall ymadroddion a'r eirfa amlder uchaf sy'n gysylltiedig â phynciau o ddiddordeb personol ac sy'n uniongyrchol berthnasol (e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol sylfaenol iawn, siopa, ardal leol, ysgol). Rydw i'n gallu deall y prif bwynt mewn negeseuon a recordiadau byr, clir, syml. | ★ Cam 2: ***Bydda i'n chwarae rygbi.*** / ***Es i ar feic.*** / ***Roedd hi'n stormus.***<br>★ Cam 3: ***Bwytais i sglodion.*** / ***Flynyddoedd yn ôl, roedd ysgol yma.*** / ***Hoffwn i fynd i'r parc.*** |
| | **Dealltwriaeth**<br>Darllen | Rydw i'n gallu darllen testunau byr, syml iawn. Rydw i'n gallu dod o hyd i wybodaeth benodol, ragweladwy mewn deunydd syml bob dydd. | ★ Cam 2: ***Beth gest ti i ginio?*** / ***Bydd hi'n bwrw glaw.*** / ***Does dim castell ym Aberdaugleddau.***<br>★ Cam 3: ***Bydd e'n costio dau gant pum deg o bunnoedd.*** / ***Roedd y bwyd yn flasus.*** / ***Ym mis Awst, es i i Sbaen gyda'r teulu.*** |
| | **Siarad**<br>Rhyngweithio Llafar | Rydw i'n gallu cyfathrebu mewn tasgau syml ac arferol sy'n gofyn am gyfnewid gwybodaeth syml ac uniongyrchol ar bynciau a gweithgareddau cyfarwydd. | ★ Cam 2: ***Beth sy'n digwydd yn y stori?*** / ***Bydda i'n mynd i'r traeth.*** / ***Ches i ddim brecwast.***<br>★ Cam 3: ***Gallwch chi siarad Cymraeg.*** / ***Hoffwn i frechdan gyda thiwna, os gwelwch yn dda.*** / ***Sut le ydy Cymru?*** |
| | **Siarad**<br>Cynhyrchu Llafar | Rydw i'n gallu defnyddio cyfres o ymadroddion a brawddegau i ddisgrifio, mewn ffordd syml, fy nheulu a phobl eraill, amodau byw, fy niwrnod ysgol, hobïau a diddordebau. | ★ Cam 2: ***Does dim ystafell fwyta yn y tŷ.*** / ***Dw i'n hoffi beicio achos mae'n hwyl.*** / ***Nac ydy, dydy Jac ddim yn hoffi nofio achos mae'n ofnadwy.*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ★ Cam 3: ***Ddydd Sul, es i i barti gyda ffrindiau. / Ar hyn o bryd, dw i'n byw mewn tŷ ar wahân yn Arberth gyda Mam. / Fydda i ddim yn chwarae pêl-droed.*** |
| **B1**<br>(Canolradd) | **Dealltwriaeth**<br>Gwrando | Rydw i'n gallu deall prif bwyntiau lleferydd safonol clir ar faterion cyfarwydd a geir yn rheolaidd yng nghyd-destun yr ysgol, hamdden, ac ati. | ★ Cam 3: ***Beth gest ti ar dy ben-blwydd? / Ces i fy ngeni yn 2014. / Fy hoff bwnc ydy hanes achos mae'n ysbrydoledig.***<br>★ Cam 4: ***Aeth hi ddim i'r dref. / Dylen ni gael canolfan hamdden newydd. / Roeddwn i'n arfer mynd i'r clwb drama.*** |
| | **Dealltwriaeth**<br>Darllen | Rydw i'n gallu deall testunau sy'n cynnwys iaith amlder uchel bob dydd neu iaith sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn bennaf. | ★ Cam 3: ***Chwaraeais i bêl-droed yn y parc gyda ffrindiau. / Est ti i'r ysgol ddydd Mercher? / Fydd hi ddim yn boeth.***<br>★ Cam 4: ***Fe ydy'r ifancaf. / Roeddwn i'n arfer byw yn Abertawe. / Y pris sy'n bwysig yn ei barn hi.*** |
| | **Siarad**<br>Rhyngweithio Llafar | Rydw i'n gallu delio â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio mewn ardal lle siaredir yr iaith. Rydw i'n gallu sgwrsio, heb baratoi o flaen llaw, am bynciau sy'n gyfarwydd, pynciau o ddiddordeb personol neu bynciau sy'n berthnasol i fywyd bob dydd (e.e. teulu, hobïau, ysgol). | ★ Cam 3: ***Am hanner awr wedi dau, es i i'r caffi. Ces i fyrgyr a sglodion. / Mae hi'n dwlu ar chwarae pêl-rwyd achos mae hi'n hoffi chwarae mewn tîm. / Pe bawn i'n gyfoethog, baswn i'n mynd i America.***<br>★ Cam 4: ***Gallwch chi brynu cacen yn y caffi. / Hoffen ni ddim mynd ar y trip technoleg. / Rydyn ni'n anghytuno heblaw am ...*** |
| | **Siarad**<br>Cynhyrchu Llafar | Rydw i'n gallu cysylltu ymadroddion mewn ffordd syml er mwyn disgrifio profiadau a digwyddiadau, fy mreuddwydion, fy ngobeithion a'm huchelgeisiau. | ★ Cam 3: ***A bod yn onest, fy hoff fwyd ydy salad achos mae'n ddanteithiol ond ar y llaw arall fy nghas fwyd ydy*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rydw i'n gallu rhoi rhesymau ac esboniadau byr am farn a chynlluniau. | ***sglodion achos maen nhw'n afiach.*** / ***A dweud y gwir, fy hoff bwnc ydy hanes achos mae'n ysbrydoledig ond ar y llaw arall fy nghas bwnc ydy drama achos mae'n wastraff amser.***<br>★ Cam 4: ***Anghytunaf yn gryf fod...*** / ***Baswn i'n awgrymu mynd i'r llyfrgell.*** / ***Bod yn garedig sy'n bwysig yn fy marn i.*** |

** Mae rhai o'r disgrifiadau wedi'u haddasu i gyd-fynd â chyd-destun dysgwyr ifanc.*